Henry Cooke 1788–1868

Gweinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon

Ganwyd Henry Cooke ar 11 Mai 1788 yn bedwerydd plentyn i John a Jane Macook, ffermwyr yn Maghera yn Swydd Londonderry, Iwerddon. Cafodd addysg glasurol ac fe'i trwythwyd gan ei fam yn hanes brwydro ei gyndadau Protestannaidd dros 'ffydd a rhyddid'. Effeithiodd y profiadau a gafodd fel bachgen yng ngwrthryfel 1798 yn ddwfn iawn arno.

Ym 1802, ac yntau yn bedair ar ddeg oed, aeth i Brifysgol Glasgow i gael ei hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth Gristnogol. Er iddo fethu ennill gradd fe'i derbyniwyd fel myfyriwr â'i fryd ar y weinidogaeth yn henaduriaeth Root ym 1807 a'r flwyddyn ddilynol fe'i trwyddedwyd gan henaduriaeth Ballymena. Cafodd alwad i weinidogaethu yn Denain, Swydd Antrim, fel cynorthwyydd ac olynydd i'r Parch. Robert Scott ac fe'i hordeiniwyd ar 10 Tachwedd 1808. Ddwy flynedd yn ddiweddarach ymddiswyddodd gan fynd yn diwtor i deulu Alexander Brown yn Kells, nid nepell o Ballymena. Yna, ym 1811, fe'i sefydlwyd yn Donegore gan henaduriaeth Templepatrick.

Roedd tyndra mawr wedi bod yn Synod Ulster ers degawdau rhwng yr Old Lights ceidwadol a lynai yn dynn wrth Galfiniaeth draddodiadol a'r New Lights mwy rhyddfrydol. Roedd Cooke o blaid yr Old Lights. Yn Donegore priododd ym 1813 ag Ellen Mann o Toome. Dechreuodd flodeuo fel pregethwr ac fe gafodd wahoddiad i bregethu ym Melfast gerbron yr arweinyddion diwydiannol. Daeth yn ymwybodol o'r diffygion yn ei addysg gynnar ac aeth ati rhwng 1815 a 1818 i gael mwy o addysg yn Glasgow a Dulyn. Tra oedd yn Nulyn byddai'n pregethu yn Carlow a Stratford-on-Slaney lle roeddent yn plannu eglwysi Presbyteraidd newydd. Yn y cyfnod hwn datblygodd adain efengylaidd gref yn yr eglwys Bresbyteraidd a daeth Cooke yn rhan o'r bwrlwm. Datblygodd o dan ddylanwad y Capten Sidney Hamilton Rowan i fod yn amddiffynnydd y safbwynt Efengylaidd. Siaradodd yn gryf yn erbyn dylanwad Ariaeth ar Bresbyteriaeth Iwerddon, yn enwedig yn y Belfast Academical

Institution. Yn y cyfnod hwn daeth yn un o bregethwyr mwyaf dylanwadol y wlad a pha le bynnag y byddai'n siarad byddai torfeydd mawr yn gwrando arno. Cafodd ei sefydlu ar eglwys newydd yn May Street, Belfast, ym 1829.

Gwrthwynebai ryddfreinio'r Pabyddion a llwyddodd yn anad neb i uno efengylyddiaeth gyda dilynwyr yr Urdd Oren. Derbyniodd radd DD er anrhydedd gan Goleg Jefferson, Pennsylvania, ym 1829. Roedd yn gryf o blaid yr egwyddor o sefydliadau crefyddol a hynny ar draul yr egwyddor wirfoddol. Fe'i hanrhydeddwyd gyda LLD ym 1837 gan Goleg y Drindod, Dulyn, oherwydd ei gyfraniad tuag at sefydliadau crefyddol. Fe'i penodwyd yn Athro Rhethreg a Holwyddoreg yng nghyfadran ddiwinyddol y Presbyteriaid ym 1847 ac yn Bennaeth Coleg Diwinyddol y Presbyteriaid a agorwyd ym 1853. Dywedir bod Cooke wedi newid pwyslais gwleidyddol Presbyteriaid Ulster o radicaliaeth weriniaethol yn y ddeunawfed ganrif i Geidwadaeth unoliaethol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bu farw yn ei gartref ar 13 Rhagfyr 1868 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Balmoral, Belfast. Cyhoeddwyd nifer fawr o'i bregethau a'i areithiau ond dywedid eu bod yn methu cyfleu ei ddawn a'i afiaith fel siaradwr medrus.